**PWYLLGOR CRAFFU'R AMGYLCHEDD AC ADFYWIO**

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod, 12 Gorffennaf, 2022.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd S.D. Perkes (Cadeirydd); Cynghorydd J. Aviet (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr I. Buckley, C.E.A. Champion, P. Drake, V.P. Driscoll, A.M. Ernest, M.J. Hooper, C. Iannucci a I.A.N. Perry

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr A. Asbrey, L. Burnett (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau), B. Brooks (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Lefydd Cynaliadwy), C.P. Franks, G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles), E. Williams (Aelod Cabinet dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd) a M.R. Wilson (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu).

EITEM AGENDA 2. COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Mehefin, 2022 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

EITEM AGENDA 4 TRWYDDEDAU MASNACHU PRIFFYRDD DROS DRO (CYF) –

ARGYMHELLWYD – Derbyn cynnwys yr adroddiad a phenderfyniadau'r Cabinet a wnaed ar 23 Mehefin 2022.

Y rheswm dros yr argymhelliad

Wedi rhoi sylw i gynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 5 CYNLLUN TAIR BLYNEDD CYNNAL A CHADW PRIFFYRDD 2022 – 2024 (CYF) –

ARGYMHELLWYD – Derbyn cynnwys yr adroddiad a phenderfyniadau'r Cabinet a wnaed ar 7 Gorffennaf 2022.

Y rheswm dros yr argymhelliad

Wedi rhoi sylw i gynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 6. MONITRO REFENIW AM Y CYFNOD RHWNG 1 EBRILL A 31 MAI 2022 (CAT) –

ARGYMHELLWYD - nodi’r sefyllfa o ran Cyllideb Refeniw 2022/23 yr Awdurdod o fewn cylch gwaith y Pwyllgor.

Y rheswm dros yr argymhelliad

Wedi rhoi sylw i gynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 7. MONITRO CYFALAF AM Y CYFNOD RHWNG 1 EBRILL A 31 MAI 2022 (CAT) –

ARGYMHELLWYD -

(1) Nodi’r cynnydd a wnaed o ran cyflawni Rhaglen Gyfalaf 2022/23 ar gyfer y cynlluniau yng nghylch gwaith y Pwyllgor.

(2) Nodi’r defnydd o Awdurdod Dirprwyedig mewn perthynas â phrosiectau a nodir yn Argymhelliad (2) yr adroddiad.

(3) Nodi’r defnydd o Bwerau Brys fel y’i nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad.

(4) Nodi’r newidiadau i Raglen Gyfalaf 2022/23 a rhai’r blynyddoedd i ddod fel y'u nodir yn Argymhelliad (4) yr adroddiad.

Y rhesymau dros yr argymhellion

(1-4) Wedi rhoi sylw i gynnwys yr adroddiad ar gynnydd y Rhaglen Gyfalaf, y defnydd o Awdurdod Dirprwyedig, y defnydd o Bwerau Brys a newidiadau i'r Rhaglen Gyfalaf.

EITEM AGENDA 8. ADRODDIAD MONITRO CYNLLUN CYFLENWI BLYNYDDOL: PERFFORMIAD CHWARTER 4 2021/22 (CAT) –

ARGYMELLWYD -

(1) Nodi’r canlyniadau perfformiad a’r cynnydd tuag at gyflawni ymrwymiadau Cynllun Cyflawni Blynyddol 2021/22 yn unol ag Amcanion Lles Cynllun Corfforaethol y Cyngor o fewn cylch gwaith y Pwyllgor.

(2) Nodi’r camau adferol sydd i'w cymryd i fynd i'r afael â meysydd lle mae tanberfformiad ac i fynd i'r afael â'r heriau allweddol a nodwyd yng nghylch gwaith y Pwyllgor.

(3) Nodi’r cynnydd sy'n cael ei wneud drwy strategaeth adfer a Chynlluniau Adfer Cyfarwyddiaethau’r Cyngor mewn ymateb i bandemig parhaus y coronafeirws.

Y rhesymau dros yr argymhellion

(1-3) Wedi rhoi sylw i gynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

GWAHARDD Y WASG A’R CYHOEDD –

PENDERFYNWYD – O dan Adran 100A (4) o’r Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol ar y sail ei bod yn debygol o gynnwys datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Rhan 4 o'r Atodlen 12A (fel y'i diwygiwyd) o'r Ddeddf, y cyfeirir at baragraffau perthnasol yr Atodlen mewn cromfachau ar ôl y pennawd munud.

EITEM AGENDA 10 DYFARNU CONTRACTAU AR GYFER GWASANAETHAU BWS LLEOL Â CHYMORTH GALW I MEWN (GWYBODAETH EITHRIEDIG – PARAGRAFFAU 12 A 14) –

ARGYMHELLWYD –

(1) Derbyn cynnwys yr adroddiad a phenderfyniadau'r Cabinet a wnaed ar 9 Mehefin 2022.

(2) Rhoi gwybod i’r Cabinet am farn Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio ar yr angen i hyrwyddo gwasanaethau bysus lleol a gefnogir yn fwy ac i godi mwy o ymwybyddiaeth ohonynt.

Y rhesymau dros yr argymhellion

(1) Wedi rhoi sylw i gynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Hyrwyddo'r gwasanaethau bysus er mwyn codi ymwybyddiaeth y cyhoedd a chynyddu nifer y teithwyr ac yn seiliedig ar y farn bod y gwasanaethau bysus yn cynorthwyo pobl i deithio i'r gwaith, yn helpu twristiaeth a gweithgareddau cymdeithasol yn ogystal â bod yn hanfodol i grwpiau sy'n agored i niwed a chymunedau anodd eu cyrraedd.